



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyllideb yr Haf 2015

Effaith diwygiadau Llywodraeth y DU ym
meysydd lles, treth bersonol ac isafswm cyflog
yng Nghymru

www.llyw.cymru



Cyllideb yr Haf 2015 – Effaith diwygiadau Llywodraeth y DU ym meysydd lles, treth bersonol ac isafswm cyflog yng Nghymru

- Cynulleidfa** Paratowyd yr adroddiad hwn yn bennaf ar gyfer Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio Lles, a swyddogion polisi a dadansoddi perthnasol.
- Trosolwg** Mae'r adroddiad yn cynnwys dadansoddiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru, yn rhan o'i rhaglen o ymchwil i asesu effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru.
- Camau i'w cymryd** Dim – er gwybodaeth yn unig.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Trechu Tlodi
Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 6160
e-bost: welfarereform@cymru.gsi.gov.uk
- Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.gov.wales/topics/people-and-communities/

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, ac eithrio pan ddatgenir yn wahanol.
www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

Cynnwys

Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol	1
1. Cyflwyniad	4
2. Dadansoddiad cynnar o effaith toriadau lles Cyllideb Haf 2015 yng Nghymru	6
3. Toriadau lles sy'n digwydd yn Lloegr yn unig	16
4. Mesurau treth bersonol	18
5. Effaith ddosraniadol y diwygiadau treth a budd-daliadau (canran o'r incwm net)	20
6. Lleiafswm Cyflog Cenedlaethol uwch i rai 25 oed a throsodd	23
Atodiad 1 - Effaith ddosraniadol y diwygiadau treth a budd-daliadau (yn nhermau arian)	25

Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol

- Mae toriadau lles arwyddocaol o £13 biliwn y flwyddyn erbyn 2020-21 wedi eu cyhoeddi yng Nghyllideb yr Haf 2015 gan Lywodraeth y DU.

Rhewi'r rhan fwyaf o'r budd-daliadau oedran gwaith, credydau treth a Lwfansau Tai Lleol

- Gwneir y toriad unigol mwyaf yn y gwariant lles drwy rewi'r rhan fwyaf o'r budd-daliadau oedran gwaith a chredydau treth am 4 blynedd o 2016-17 ymlaen, er mwyn arbed tua £4 biliwn y flwyddyn erbyn 2020-21.
- Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS) yn amcangyfrif yr effeithir ar 13 miliwn o deuluoedd ledled y DU, a fydd yn colli £260 a y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae 7.4 miliwn o'r bobl hyn mewn gwaith, ac yn colli £280 y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae'n hamcangyfrifon ni yn awgrymu yr effeithir ar 360,000 o deuluoedd sy'n cael Budd-dal Plant yng Nghymru. Bydd rhai hawlwr yn derbyn mwy nag un o'r budd-daliadau neu gredyd treth a rewir.

Gostwng trothwyon incwm mewn credydau treth a lwfansau gwaith mewn Credyd Cynhwysol

- Mae'r gostyngiad, o Ebrill 2016 ymlaen, yn y trothwy enillion pan ddechreuir tynnu'n ôl gredydau treth neu Gredyd Cynhwysol oddi ar aelwydydd yn newid arwyddocaol, a fydd yn lleihau'r cymhelliad i weithio. Mae'r IFS yn amcangyfrif y bydd hyn yn effeithio ar 3 miliwn o deuluoedd yn y DU, a fydd yn colli tua £1,000 y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae'n hamcangyfrifon ni yn awgrymu yr effeithir ar 130,000 – 160,000 o deuluoedd yng Nghymru.

Cyfyngu'r elfen plant i 2 blentyn, ar gyfer genedigaethau newydd mewn credydau treth ac ar gyfer hawliadau newydd mewn Credyd Cynhwysol

- Roedd 117,000 o deuluoedd gyda 2 neu fwy o blant yn derbyn credydau treth yng Nghymru yn 2013-14. Effeithir ar y teuluoedd hyn os genir rhagor o blant iddynt ar ôl Ebrill 2017.

Lleihau swm blynyddol y budd-dal y gall teuluoedd sydd allan o waith ei gael, o £26,000 i £23,000 o fewn Llundain ac i £20,000 y tu allan i Lundain

- Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn amcangyfrif y bydd y cap hwn yn effeithio ar 126,000 o aelwydydd ym Mhrydain Fawr yn 2017-18, ac y bydd 92,000 o'r aelwydydd hyn yn ychwanegol yn ystod y polisi cyfredol. O fewn yr aelwydydd hyn, effeithir ar 156,000 o oedolion a 330,000 o blant. Bydd y gostyngiad ym mudd-daliadau'r aelwydydd hyn oddeutu £63 yr wythnos ar gyfartaledd yn 2017-18.

- Ein hamcangyfrif dechreuol yw y bydd gostwng y cap ar fudd-daliadau aelwyd yn effeithio ar tua 5,000 o aelwydydd yng Nghymru.

Tynnu'r hawl i gael cymorth tai oddi ar y rhan fwyaf o unigolion 18-21 oed sydd heb blant ac allan o waith

- Ym mis Chwefror 2015, roedd tua 1,060 o hawlwr 18-21 oed di-blant yng Nghymru yn cael Lwfans Ceisio Gwaith a Budd-dal Tai. Er y diogelir y baich achosion presennol rhag y newidiadau mewn cymorth tai i'r di-waith 18-21 oed, byddid yn disgwyl baich achosion cyffelyb o dan y Credyd Cynhwysol, pe na bai'r polisi hwn wedi ei fabwysiadu. Defnyddir hwn, felly fel y dangosydd gorau o effaith debygol y polisi yn y tymor canol. Byddai'r nifer yr effeithir arnynt ychydig yn is oherwydd yr esemptiadau o'r polisi.

Cynyddu amodoldeb Credyd Cynhwysol i rieni, drwy gynnwys rhieni sydd â phlant 3 oed neu'n hŷn (yn hytrach na 5 oed neu'n hŷn)

- O fis Medi 2017 ymlaen, disgwylir i rieni sydd â'u plentyn ieuengaf yn 3 oed neu'n hŷn, ac sy'n alluog i weithio, chwilio am waith os byddant yn hawlio Credyd Cynhwysol. Mae'r DWP yn amcangyfrif y bydd y mesur hwn yn effeithio ar oddeutu 220,000 o hawlwr yn y DU. Rhagwelwn y bydd hyn yn effeithio ar 7,000 - 8,000 o unig rieni yng Nghymru. Ar sail tystiolaeth am effaith cynyddu'r amodoldeb i rieni yn y gorffennol, disgwylir y bydd hyn yn gael effaith gadarnhaol ar gyflogaeth.

Cysoni'r gyfradd Grŵp Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith â'r Lwfans Ceisio Gwaith ar gyfer hawliadau newydd

- Bydd taliadau o'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (a'r elfen Gallu Cyfyngedig i Weithio mewn Credyd Cynhwysol) ar gyfer rhai y tybir eu bod yn alluog i weithio yn cael eu cysoni â'r Lwfans Ceisio Gwaith a chyfradd safonol y Credyd Cynhwysol. Bydd hyn yn gymwys i hawliadau newydd yn unig o Ebrill 2017 ymlaen.
- Mae'r DWP yn amcangyfrif yr effeithir ar 500,000 o deuluoedd yn y DU yn y tymor hir. Amcangyfrifwn y bydd tua 37,000 o'r hawlwr yr effeithir arnynt yng Nghymru. Mae'r DWP yn amcangyfrif y bydd y golled dybiannol¹ i'r rhai yr effeithir arnynt oddeutu £28 yr wythnos.

¹ Mesur yw hwn o'r hyn y byddai hawlwr wedi bod yn gymwys i'w gael pe na bai'r polisi wedi ei newid, yn hytrach na cholled o incwm yr oedd hawlwr eisoes yn ei gael (sef 'colled ariannol').

Diddymu'r elfen deulu mewn credydau treth a Chredyd Cynhwysol, a'r premiwm teulu mewn Budd-dal Tai, ar gyfer hawliadau newydd

- Ni fydd y rhai a fydd yn dechrau magu teulu ar ôl Ebrill 2017 yn gymwys mwyach i gael yr elfen deulu mewn Credydau Treth (£545 y flwyddyn i bob teulu). Yn ogystal, ni fydd yr elfen gyfatebol mewn Credyd Cynhwysol, sef y 'premiwm plentyn cyntaf' (gwerth £45.41 y mis) ar gael ar gyfer hawliadau newydd ar ôl Ebrill 2017. Bydd newidiadau tebyg yn cael eu gwneud mewn Budd-dal Tai, drwy ddiddymu'r premiwm teulu ar gyfer plant a enir, neu hawliadau a wneir, ar ôl Ebrill 2016.
- Mae'r IFS yn amcangyfrif y bydd y mesur hwn yn effeithio ar tua 4 miliwn o deuluoedd. Tybiannol fydd y colledion, ac ni fydd colledion ariannol. Disgwylir y bydd hyn, yn y tymor hir, yn effeithio ar oddeutu 200,000 o deuluoedd yng Nghymru.

Cynnydd pellach yn lwfans personol y dreth incwm


- Bydd y trothwy pan fydd rhywun yn dechrau talu treth incwm, sef 'lwfans personol y dreth incwm', yn codi o £10,600 yn 2015-16 i £11,000 yn 2016-17 ac i £11,200 yn 2017-18.
- Mae'r IFS yn amcangyfrif y bydd talwyr treth incwm ar y gyfradd sylfaenol ar eu hennill £40 y flwyddyn o ganlyniad i'r mesur hwn. Y rhai a fydd fwyaf ar eu hennill yw cyplau sydd â'r ddau bartner yn gweithio, a'r ddau felly yn cael budd o'r lwfans uwch; o ganlyniad, y rhai yn rhannau canol a chanol uchaf y dosraniad incwm a fydd yn cael y budd mwyaf yn nhermau canran o'u hincwm. Ni fydd codi'r lwfans personol yn cynyddu incwm y tlotaf mewn cymdeithas.

Effaith gyfanredol y newidiadau treth a budd-dal, ac effaith yr isafswm cyflog

- Mae dadansoddiad yr IFS yn dangos y bydd y newidiadau treth a budd-dal gan Lywodraeth y DU, rhwng Ebrill 2015 ac Ebrill 2019, yn mynd â llawer mwy oddi ar aelwydydd ar incwm isel, o gymharu ag aelwydydd ar incwm uwch. Er enghraifft, bydd aelwydydd yn y grwpiau incwm tlotaf yn colli tua 7 y cant o'u hincwm net ar gyfartaledd, o gymharu â cholled ddibwys ar gyfartaledd i'r grŵp incwm cyfoethocaf. Y golled gyfartalog ar draws yr holl aelwydydd yw 1.5 y cant o'r incwm net.
- Mae'r IFS yn adrodd na fydd llawer o'r teuluoedd, sydd mewn gwaith ac yr effeithir arnynt gan y toriadau mewn credyd treth, yn cael eu digolledu gan yr isafswm cyflog uwch; a bydd derbynwyr credyd treth, yn ddiamau, mewn gwaeth sefyllfa oherwydd y mesurau yng Nghyllideb Haf Llywodraeth y DU.

1. Cyflwyniad

Roedd Cyllideb Haf 2015 Llywodraeth y DU yn cadarnhau y gwneir toriad o £12 biliwn yn y gwariant lles blynyddol. Gwneir hyn dros gyfnod o 4 blynedd (h.y. erbyn 2019-20) yn hytrach nag o fewn dwy flynedd fel y disgwyliid cyn y Gyllideb. Rhagwelir y bydd y toriadau lles yn cynyddu ymhellach i oddeutu £13 biliwn erbyn 2020-21. Mae'r saith prif doriad, sy'n cyfrif am 93 y cant o'r cyfanswm arbedion yn 2020-21, wedi eu crynhoi yn y siart isod. Bwriedir gwneud y toriadau mwyaf yn y gwariant lles drwy rewi'r mwyafrif o'r budd-daliadau oedran gwaith a chredydau treth, a gostwng y trothwy enillion sy'n ysgogi tynnu'n ôl gredydau treth a Chredyd Cynhwysol (CC) oddi ar aelwydydd.



Ffynhonnell y data: Cyllideb Haf (2015) Trysorlys EM

Mae'n hamcangyfrifon cynnar o effaith y toriadau les yng Nghymru wedi eu cynnwys yn Adran 2 isod. Bydd rhai hawl wyr yn cael eu heffeithio gan fwy nag un o'r mesurau arfaethedig. Mae Adran 3 yn amlinellu'r toriadau lles a fydd yn gymwys yn Lloegr. Mae Adran 4 yn crynhoi'r prif fesurau treth bersonol, ac Adran 5 yn dadansoddi effaith gyfunol y newidiadau lles a threthiant. Mae Adran 6 yn ystyried effaith y newid yn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar unigolion dros 25 oed.

Cyhoeddir crynodeb o ymateb Llywodraeth Cymru i'r diwygiadau lles hyd yma yn ddiweddarach yn ystod Medi 2015. Bydd modd ichi ei weld drwy'r ddolen ganlynol: <http://gov.wales/topics/people-and-communities/welfare-reform-in-wales>

2. Dadansoddiad cynnar o effaith toriadau lles Cyllideb Haf 2015 yng Nghymru

Newid polisi	Amserlen	Amcangyfrif o'r effaith
1. Rhewi'r mwyafrif o'r budd-daliadau oedran gwaith ² , credydau treth a Lwfansau Tai Lleol	O 2016-17 tan 2019-20	<p>Mae'r budd-daliadau a'r credydau treth yr effeithir arnynt gan y newid hwn wedi eu rhestru isod, ynghyd â data am y beichiau achosion³.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Lwfans Ceisio Gwaith (LCG): 46,200 o hawlwy • Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (LCCh) Grŵp Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith yn unig: 36,500 o hawlwy • Cymhorthdal Incwm: 46,600 o hawlwy • Budd-dal Plant: 359,900 o deuluoedd • Budd-dal Tai: 247,900 o hawlwy (gan gynnwys 73,600 o denantiaid Lwfans Tai Lleol) • Credyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith: 238,000 o deuluoedd (gan gynnwys 74,000 o deuluoedd di-waith, 133,000 o deuluoedd mewn gwaith gyda phlant a 30,000 o deuluoedd mewn gwaith heb blant), a 384,000 o blant. <p>Oherwydd bod rhywfaint o orgyffwrdd ymhlith yr hawlwy hyn (e.e. pobl sy'n hawlio LCG a Budd-dal Tai), nid oedd modd amcangyfrif cyfanswm yr hawlwy/teuluoedd yr effeithir arnynt ar sail y data hyn. Mae'r IFS, sydd ag ystod ehangach o ddata ac offer modelu ar gael iddo, wedi amcangyfrif y bydd y polisi hwn yn effeithio ar 13 miliwn o deuluoedd ym Mhrydain Fawr, a fydd yn colli £260 y flwyddyn ar gyfartaledd (o'r rhain, mae 7.4 miliwn mewn gwaith, ac yn colli £280 y flwyddyn ar gyfartaledd)⁴. Rhagwelir y bydd y mesur hwn, sef y toriad lles mwyaf yng Nghyllideb yr Haf 2015, yn arbed tua £4.0 biliwn y flwyddyn i Drysorlys y DU erbyn 2020-21⁵. Daw'r arbedion mwyaf o gredydau treth (£2.0 biliwn yn 2020-21), wedyn Budd-dal Plant (£0.6 biliwn) ac LCCh (£0.6 biliwn)⁶. Fodd bynnag, bydd yr arbedion a wireddir yn sensitif i wahaniaethau rhwng y chwyddiant a ragwelir a'r chwyddiant gwirioneddol.</p>

² Cynhwysir yn hyn: y Lwfans Ceisio Gwaith; Lwfans Cyflogaeth a Chymorth; Cymhorthdal Incwm; Budd-dal Plant; symiau cymwysadwy ar gyfer Budd-dal Tai; cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol gyda darpariaeth ar gyfer ardaloedd rhenti uchel; Credyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith. Ni chynhwysir: Lwfans Mamolaeth; Tâl Salwch Statudol; Tâl Mamolaeth Statudol; Tâl Tadolaeth Statudol; Tâl Rhiant Statudol a Rennir; Tâl Mabwysiadu Statudol; premiymau anabledd, gofalwyr a phensiynwyr yn y budd-daliadau/credydau treth a rewir; y gydran Grŵp Cymorth o'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth; budd-daliadau eraill i'r anabl (h.y. Lwfans Byw i'r Anabl a'r Taliad Annibyniaeth Bersonol), gofalwyr (h.y. Lwfans Gofalwr) a phensiynwyr, y parheir i'w huwchraddio yn unol â phrisiau neu enillion fel y bo'n gymwys.

³ Ffynonellau: Gwefan Nomis ONS (Data Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a Chymhorthdal Incwm ar gyfer Tachwedd 2014); DWP StatXplore (Data Budd-dal Tai ar gyfer Chwefror 2015); CTHEM *Child Benefit Statistics – Geographical Analysis*, Awst 2014; CTHEM *Child and Working Tax Credits Statistics Finalised Annual Awards 2013-14 – Geographical Analysis*. Talgrynnir ffigurau i'r 100 agosaf 100.

⁴ Hood, A. (2015) *Benefit changes and distributional analysis. A presentation for the IFS Post-Budget Briefing Event on 9 July 2015*
http://www.ifs.org.uk/tools_and_resources/budget/505

⁵ Ffynhonnell: Trysorlys EM: Cyllideb yr Haf 2015.

⁶ Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (2015) *Economic and Fiscal Outlook, July 2015*.

Newid polisi	Amserlen	Amcangyfrif o'r effaith
Parhad...		<p>Er bod esemptiadau¹ ar gyfer y budd-daliadau/credydau treth a fwriedir fel cymorth gyda chostau ychwanegol anabledd (e.e. Lwfans Byw i'r Anabl), a uwchraddir yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), effeithir, er gwaethaf hynny, ar lawer o deuluoedd a fydd yn cynnwys personau anabl. Er enghraifft, bydd y prif gyfraddau budd-daliadau prawf modd, y prif elfennau yn y credydau treth, y gydran Grŵp Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith yn yr LCCh, a'r elfennau cyfwerth yn y Credyd Cynhwysol i gyd wedi eu rhewi. Yn nhermau oedran, mae Aseiad Effaith y DWP⁷ yn nodi mai pobl 30 – 50 oed yw'r mwyaf tebygol o ddiodeff yr effeithiau (gan eu bod yn fwy tebygol fod yn rhieni neu ofalwyr plant, ac o deimlo effaith y newid mewn budd-daliadau sy'n gysylltiedig â phlant). Fodd bynnag, aelwydydd iau (lle mae'r pen-teulu o dan 30 oed) a fydd yn colli fwyaf yn nhermau'r gyfran o'u hincwm. Fel unigolion, mae menywod yn fwy tebygol o gael eu heffeithio na dynion oherwydd, yn ôl pob tebyg, mai menywod yw 90 y cant o'r unig rieni (sef y math o deulu sydd fwyaf tebygol o hawlio'r budd-daliadau dan sylw). O safbwynt ethnigrwydd, yr aelwydydd mwyaf tebygol o deimlo'r effaith yw'r rhai lle mae'r penteulu yn disgrifio i hun fel Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig. Fodd bynnag, pobl Asiaidd/Asiaidd Prydeinig sy'n debygol o ddiodeff y colledion tybiannol mwyaf.</p> <p>Mae'r polisi hwn hefyd yn codi cwestiynau ynglŷn â gwahaniaethu ymhellach yn y modd y trinnir pensiynwyr a phobl mewn oedran gwaith, yr effaith ar deuluoedd mewn gwaith sydd ar incwm isel, ac i ba raddau y gall aelwydydd sy'n dibynnu ar fudd-daliadau di-waith fforddio'r hanfodion⁸. Yn wir, mae ymchwil gan Sefydliad Joseph Rowntree⁹ yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'r bobl sy'n dibynnu ar fudd-daliadau di-waith (yn enwedig oedolion sengl) yn methu â chyrraedd yr isafswm incwm derbyniol.</p>
2. Gostwng trothwyon incwm mewn credydau treth a lwfansau gwaith mewn Credyd Cynhwysol	O 2016-17 ymlaen	<p>Bydd y swm y caiff teulu ei ennill cyn y dechreuir tynnu'n ôl y credydau treth yn cael ei ostwng o £6,420 i £3,850. Bydd yr elfennau cyfatebol o'r Credyd Cynhwysol (lwfansau gwaith) yn gostwng i £4,764 i rai heb gostau tai, £2,304 i rai â chostau tai, a chânt eu diddymu'n llwyr i hawlwyrr sydd heb blant ac nad ydynt yn anabl.</p> <p>Mae'r IFS yn amcangyfrif y bydd y polisi hwn yn effeithio ar oddeutu 3 miliwn o deuluoedd ym Mhrydain Fawr, a fydd yn colli ychydig dros £1,000 y flwyddyn ar gyfartaledd. Roedd lwfansau gwaith sylweddol, sy'n gwella'r cymhelliad i fynd yn ôl i weithio, yn rhan sylfaenol o gynllun y system CC. Bydd y mesur hwn, fodd bynnag yn newid effeithiau a strwythur CC yn sylweddol. Er enghraifft, bydd yn lleihau'r cymhelliad i'r enillydd cyntaf mewn teulu fynd i weithio. bydd y mesur yn diogelu'r rhai sydd ar yr incymau isaf, rhai sy'n ddi-waith yn bennaf, ar draul enillwyr cyflogau isel (na chaiff y rhan fwyaf ohonynt eu digolledu gan yr isafswm cyflog cenedlaethol uwch). Mae'r IFS wedi cyfeirio at hyn fel 'dewis diddorol', gan fod y toriadau yn y system gredyd treth/CC wedi eu hanelu i raddau llawer mwy at deuluoedd mewn gwaith, yn hytrach na theuluoedd di-waith¹⁰. Rhagwelir y bydd y mesur hwn yn arbed tua £3.4 biliwn y flwyddyn i Drysorlys y DU erbyn 2020-21¹¹.</p>

⁷ DWP (2015) *Welfare Reform and Work Bill: Impact Assessment of the benefit rate freeze (July 2015)*.

⁸ Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin (2015) *Welfare Reform and Work Bill*. Papur Briffio Rhif 07252.

⁹ Hirsch, Donald (2015) *A minimum income standard for the UK in 2015. A report for the Joseph Rowntree Foundation*.

¹⁰ Hood, A. (2015) *Benefit changes and distributional analysis. A presentation for the IFS Post-Budget Briefing Event on 9 July 2015*; Johnson, P. (2015) *Opening remarks - IFS Post-Budget Briefing Event on 9 July 2015* http://www.ifs.org.uk/tools_and_resources/budget/505

¹¹ Ffynhonnell: Trysorlys EM: Cyllideb yr Haf 2015.

Newid polisi	Amserlen	Amcangyfrif o'r effaith
Parhad...		Mae ystadegau Cyllid a Thollau EM (CThEM) yn dangos bod 34,000 o deuluoedd a oedd mewn gwaith yng Nghymru yn 2013-14 yn derbyn credydau treth, gydag incwm aelwyd blynyddol o hyd at £6,240. Bydd incwm rhai o'r teuluoedd hynny dros £3,850, a byddant felly'n cael eu heffeithio gan y mesur hwn, ynghyd â 130,000 o deuluoedd eraill sydd mewn gwaith yng Nghymru gydag incwm aelwyd blynyddol sydd rhwng £6,420 a £50,000 ¹² . Yn gyffredinol, felly amcangyfrifir y bydd 130,000 – 160,000 o deuluoedd yng Nghymru yn cael eu heffeithio gan y mesur hwn.
3. Cynyddu'r gyfradd dapro ar gyfer credydau treth o 41 y cant i 48 y cant	O 2016-17 ymlaen	<p>Mae'r mesur hwn yn cynyddu'r gyfradd benodedig ar gyfer tynnu'n ôl y dyfarniad o gredyd treth i aelwyd neu berson, unwaith yr enillir mwy na £3,850. Bydd hyn yn lleihau'r cymhelliad i fynd i weithio neu i weithio rhagor o oriau. Rhagwelir y bydd y mesur yn arbed £0.3 biliwn y flwyddyn i Drysorlys y DU erbyn 2020-21¹³.</p> <p>Ar sail ystadegau CThEM ar gyfer 2013-14, rydym yn amcangyfrif bod 130,000 – 160,000 o deuluoedd yng Nghymru yn ennill mwy na'r trothwy incwm gostyngedig newydd ar gyfer credydau treth (sef £3,850) a byddai'r mesur hwn felly yn effeithio arnynt¹⁴.</p>
4. Cyfyngu'r elfen plant i 2 blentyn ar gyfer genedigaethau newydd mewn credydau treth a hawliadau newydd mewn CC	O 2017-18 ymlaen	<p>Bydd y cymorth a ddarperir i deuluoedd drwy'r elfen plant o'r Credyd Treth Plant yn gyfyngedig i 2 blentyn, ac felly ni fydd plant dilynol a enir ar ôl Ebrill 2017 yn gymwys ar gyfer cymorth pellach. Gwneir newid cyfatebol mewn Budd-dal Tai yn ogystal. Bydd hyn yn gymwys hefyd o dan y Credyd Cynhwysol, i deuluoedd a fydd yn gwneud hawliad newydd o Ebrill 2017 ymlaen. Rhagwelir y bydd y mesur yn arbed £1.4 biliwn y flwyddyn i Drysorlys y DU erbyn 2020-21¹⁵. Mae'r IFS yn amcangyfrif y bydd yr arbediad tymor hir yn fwy hyd yn oed (£3 biliwn y flwyddyn) wrth i'r diogelwch trosiannol ar gyfer y teuluoedd presennol edwino; gwnaeth y sylw bod hwn yn gam arwyddocaol tuag at wanhau'r berthynas rhwng angen a hawlogaeth yn system fudd-daliadau¹⁶.</p> <p>Gwneir darpariaethau ar gyfer achosion eithriadol megis genedigaethau lluosog. Diogelir aelwydydd a fu'n cael credydau treth neu Gredyd Cynhwysol gyda thoriad o lai na 6 mis. Bydd pob plentyn ag anabledd yn parhau gael yr Efen Plant Anabl neu'r Efen Plant ag Anabledd Difrifol mewn credydau treth a'r hyn sy'n cyfateb mewn Credyd Cynhwysol. Gweithredir y mesur hwn ar 'sail dreigl'. Er enghraifft, os yw'r plentyn hynaf yn cyrraedd yr oedran pan nad yw mwyach yn gymwys ar gyfer Credyd Treth Plant, ac yna genir trydydd plentyn i'r teulu ar neu ar ôl 6 Ebrill 2017, bydd y plentyn hwnnw yn gymwys ar gyfer yr elfen unigol. Ni fydd y mesur hwn yn effeithio ar yr elfen gofal plant o'r Credyd Treth Gwaith nac o'r Credyd Cynhwysol.</p>

¹² CThEM *Child and Working Tax Credits Statistics Finalised Annual Awards 2013-14 – Geographical Analysis*.

¹³ Ffynhonnell : Trysorlys EM Cyllideb yr Haf 2015.

¹⁴ CThEM *Child and Working Tax Credits Statistics Finalised Annual Awards 2013-14 – Geographical Analysis*.

¹⁵ Ffynhonnell: Trysorlys EM: Cyllideb yr Haf 2015.

¹⁶ Hood, A. (2015) *Benefit changes and distributional analysis. A presentation for the IFS Post-Budget Briefing Event on 9 July 2015*.

Newid polisi	Amserlen	Amcangyfrif o'r effaith
Parhad...		<p>Ar yr adeg yr ysgrifennir hyn, mae pob plentyn ychwanegol yn darparu cymorth ariannol ychwanegol o £2,780 y flwyddyn drwy'r Credyd Treth Plant (mae cyfradd uwch yn gymwys yn achos plentyn ag anabledd/anabledd difrifol). Bydd y newid polisi hwn yn lleihau swm y credydau treth i hawl wyr yn y dyfodol sydd â 3 neu ragor o blant, nad ydynt yn dod o fewn yr esemptiadau uchod. Dengys ystadegau CThEM 43,000 o deuluoedd (gan gynnwys 26,000 o deuluoedd mewn gwaith), gyda 3 neu ragor o blant, yn cael credydau treth yng Nghymru yn 2013-14. Nid effeithir ar hawlogaeth yr hawl wyr presennol hyn, oni fyddant yn cael rhagor o blant ar ôl Ebrill 2017. Roedd yna hefyd 74,000 o deuluoedd gyda 2 blentyn, a oedd yn cael credydau treth yng Nghymru yn 2013-14¹⁷. Effeithir yn yr un modd ar y teuluoedd hyn os cânt ragor o blant ar ôl Ebrill 2017 (oni fyddant yn dod o fewn yr esemptiadau). Mae'n ansicr ar hyn o bryd beth fydd yr ymatebion ymddygiadol i effaith y lleihad hwn yn y cymorth a roddir ar gyfer geni plant. Er bod dadansoddiad IFS¹⁸ wedi canfod cysylltiad rhwng cymorth budd-daliadau ar gyfer plant a genedigaethau, nid oes tystiolaeth ar hyn o bryd i ddangos pa mor gryf yw'r effeithiau hyn.</p> <p>Mae asesiad effaith y DWP¹⁹ yn nodi y gall y newid fod yn fwy tebygol o effeithio ar fenywod yn hytrach na gwrywod gan fod cyfran uchel o unig rieni (sef menywod yn bennaf) yn cael Credyd Treth Plant. Gall aelwydydd lleiafrifoedd ethnig hefyd deimlo'r effaith i raddau helaethach gan eu bod, ar gyfartaledd yn fwy tebygol o fod yn cael y budd-daliadau hyn, ac o fod â theuluoedd mwy. O blith yr aelwydydd sy'n cael budd-daliadau lles, mae'r rhai sydd ag anabledd yn llai tebygol o gynnwys plant, ac felly mae'n llai tebygol yr effeithir arnynt.</p>
5. Lleihau swm blynyddol y budd-dal y gall teuluoedd sydd allan o waith ei gael, o £26,000 i £23,000 o fewn Llundain ac i £20,000 y tu allan i Lundain	O 2016-17 ymlaen	<p>Bydd y cap ar fudd-daliadau aelwydydd, sy'n gymwys i deuluoedd di-waith, yn cael ei ostwng o £26,000 (£18,200 i oedolion sengl heb blant) i £23,000 (£15, i oedolion sengl heb blant) o fewn Llundain ac i £20,000 (£13,400 i oedolion sengl heb blant) y tu allan i Lundain. Mae Trysorlys EM y nodi bod cap o £23,000 yn gyfwerth ag enillion cyn treth o oddeutu £29,000, a chap o £20,000 yn gyfwerth ag enillion cyn treth o oddeutu £25,000. Mae hyn yn torri'r cysylltiad presennol rhwng y cap ac enillion cyfartalog. Mae esemptiadau mewn grym ar gyfer y bobl anabl mwyaf hyglwyf. Rhagwelir y bydd y mesur yn arbed £0.5 biliwn y flwyddyn i Drysorlys y DU erbyn 2020-21²⁰. Fodd bynnag, mae'r IFS yn rhagweld arbediad is, sef £200m, yn 2020-21 ar ôl cymryd i ystyriaeth newidiadau eraill mewn budd-daliadau²¹. Bydd £800 miliwn o gymorth yn cael ei ddarparu i'r hawl wyr mwyaf hyglwyf dros y 5 mlynedd nesaf (o 2016-17 ymlaen) drwy'r Taliadau Tai Disgresiynol.</p> <p>Mae'r DWP²² yn amcangyfrif y bydd y cap yn effeithio ar gyfanswm cyfartalog o 126,000 o aelwydydd ym Mhrydain Fawr yn 2017-18, gyda 92,000 ohonynt yn aelwydydd ychwanegol yn ystod y polisi cyfredol. O fewn yr aelwydydd hyn, the nifer o oedolion yr effeithir arnynt fydd 156,000, a nifer y plant fydd 330,000. Bydd y gostyngiad ym mudd-daliadau'r aelwydydd oddeutu £63 yr wythnos ar gyfartaledd yn 2017-18.</p>

¹⁷ HMRC *Child and Working Tax Credits Statistics Finalised Annual Awards 2013-14 – Geographical Analysis*.

¹⁸ Brewer, M. et al (2009) *Does welfare reform affect fertility? Evidence from the UK*. <http://www.ifs.org.uk/wps/wp0809.pdf>

¹⁹ DWP (2015) *Welfare Reform and Work Bill: Impact Assessment of Tax Credits and Universal Credit, changes to child element and family element (July 2015)*.

²⁰ Ffynhonnell: Trysorlys EM: Cyllideb yr Haf 2015.

²¹ Hood, A. (2015) *Benefit changes and distributional analysis. A presentation for the IFS Post-Budget Briefing Event on 9 July 2015*.

²² DWP (2015) *Welfare Reform and Work Bill: Impact Assessment for the benefit cap (July 2015)*.

Newid polisi	Amserlen	Amcangyfrif o'r effaith
Parhad...		<p>Amcangyfrifwn y bydd gostwng y cap budd-daliadau aelwyd o £26,000 i £20,000 yn effeithio ar tua 5,000 o aelwydydd²³ yng Nghymru. Brasamcan yw hwn o'r nifer yr effeithir arnynt, a gall y ffigur newid. Amcangyfrifwn fod tua 1,000 o aelwydydd, y byddai'r cap presennol wedi effeithio arnynt yn 2017-18, a fyddai'n colli £6,000 ychwanegol y flwyddyn. Yn ogystal, effeithid ar oddeutu 4,000 o deuluoedd di-waith eraill sydd â'u hincwm o fudd-daliadau rhwng £20,000 a £26,000 (a fyddai'n colli llai na £6,000 y flwyddyn). Nid yw'r amcangyfrifon hyn yn cymryd i ystyriaeth unrhyw ymatebion ymddygiadol (megis dechrau gweithio). Er bod y dystiolaeth a gasglwyd hyd yma, wrth werthuso effaith y cap budd-daliadau aelwyd yn dangos bod rhai o'r hawlwyd yr effeithiwyd arnynt wedi ymateb yn gadarnhaol drwy ddechrau gweithio, nid yw mwyafrif helaeth o'r hawlwyd wedi ymateb drwy ddechrau gweithio nac ychwaith drwy symud tŷ²⁴.</p> <p>Mae Asesiad Effaith DWP²⁵ yn awgrymu mai menywod sengl yw mwyafrif (sef 64 y cant) o'r rhai yr effeithir arnynt gan y cap; a chan y tybir bod y polisi'n effeithio'n bennaf ar deuluoedd â phlant, credir mai unig rieni yw'r mwyafrif (amcangyfrifir bod 59 y cant o'r baich achosion yn unig rieni benywaidd). Amcangyfrifir bod 12 y cant o'r rhai yr effeithir arnynt yn wrywod sengl. O ran oedran, mae'r cap yn gymwys i fudd-daliadau oedran gwaith, ac mae'r Asesiad Effaith yn awgrymu bod tri chwarter o'r aelwydydd ychwanegol yr effeithir arnynt yn rhai 25 – 44 oed (ar sail oedran y prif hawlydd). Y rheswm am hyn yw fod hawlwyd iau (o dan 25 oed) yn cael llai o daliadau budd-dal, ac yn llai tebygol o fod â phlant. Mae aelwydydd sy'n cael rhai budd-daliadau anabledd (gan gynnwys Lwfans Byw i'r Anabl/ Taliad Annibyniaeth Bersonol/Lwfans Gweini/ Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol a'r gydran cymorth yn LCCh) yn esempt o'r cap. O ran yr effaith ar ofalwyr, mae DWP yn amcangyfrif bod 94 y cant o'r aelwydydd sydd yn cael Lwfans Gofalwr a chydag incwm uwchlaw'r cap gostyngedig yn esempt, yn bennaf oherwydd bod y person y gofelir amdano ar yr un aelwyd ac yn cael budd-dal anabledd sy'n esempt. Er na all DWP roi ffigur manwl ar nifer yr aelwydydd a gaiff eu capio sydd ag aelod o leiafrif ethnig (oherwydd anawsterau data), gwyddom fod cyfran uchel o'r aelwydydd yr effeithir arnynt yn aelwydydd teuluoedd mawr. Mae DWP yn nodi ei bod yn fwy tebygol yr effeithir ar rai sy'n dod o gefndiroedd diwylliannol a lleiafrifoedd ethnig lle mae teuluoedd mawr yn gymharol gyffredin.</p>

²³ Seilir yr amcangyfrif hwn ar nifer o ffynonellau data, gan gynnwys: Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP): *household benefit cap statistics* <https://www.gov.uk/government/collections/benefit-cap-statistics>; DWP (2015) *Welfare Reform and Work Bill: Impact Assessment for the benefit cap* <http://services.parliament.uk/bills/2015-16/welfarereformandwork/documents.html>; a dadansoddiad a gyhoeddwyd gan IFS <http://www.ifs.org.uk/uploads/publications/bns/BN172.pdf>

²⁴ Emmerson, C. a Joyce, R. (2014) *Coping with the cap? An IFS Observation* <http://www.ifs.org.uk/publications/7482>

²⁵ DWP (2015) *Welfare Reform and Work Bill: Impact Assessment for the benefit cap*.

Newid polisi	Amserlen	Amcangyfrif o'r effaith
6. Cynyddu amodoldeb CC i rieni, o'r adeg y mae'r plentyn ieuengaf yn cyrraedd 3 oed	O fis Medi 2017 ymlaen	<p>Ers mis Mai 2012, roedd disgwyliad y byddai o fewn y system fudd-daliadau yn chwilio am waith oes oeddent yn alluog i weithio ac os oedd eu plentyn ieuengaf yn 5 oed neu'n hŷn (gostyngwyd o 7 oed a throsodd). O fis Medi 2017 ymlaen, gostyngir y trothwy hwn ymhellach, a bydd disgwyl i rieni sy'n hawlio'r Credyd Cynhwysol, gan gynnwys unig rieni, chwilio am waith os ydynt yn alluog i weithio a'u plentyn ieuengaf yn 3 oed neu'n hŷn. Unwaith y bydd eu plentyn ieuengaf yn cyrraedd 2 oed, disgwylir iddynt baratoi ar gyfer gwaith. Bydd y rhieni hyn yn cael cymorth gan Ganolfan Byd Gwaith. Rhagwelir y bydd y mesur hwn yn arbed £30 miliwn y flwyddyn i Drysorlys y DU erbyn 2020-21²⁶.</p> <p>Ar sail y llifoedd budd-daliadau hanesyddol, mae DWP yn amcangyfrif y bydd y mesur hwn yn effeithio ar oddeutu 220,000 o ofalwyr cyfrifol a fydd yn hawlio Credyd Cynhwysol ym Mhrydain Fawr gyda phlentyn ieuengaf yn 3 neu'n 4 oed, ac unig rieni fydd dros 75 y cant ohonynt²⁷.</p> <p>Yn Awst 2013 (pan gyhoeddwyd y data diweddaraf gyda'r dadansoddiad hwn²⁸), roedd oddeutu 7,900 o unig rieni yng Nghymru yn cael Cymhorthdal Incwm gyda phlentyn ieuengaf yn 3 neu 4 oed, a 14,600 o yn cael Cymhorthdal Incwm gyda phlentyn ieuengaf o dan 3 oed. Er nad yw'r data hyn yn gyfoes, maent yn arwydd defnyddiol o'r niferoedd y mae'r polisi hwn yn debygol o effeithio arnynt. Mae data diweddarach ar gyfer Tachwedd 2014²⁹ yn dangos bod 21,200 o unig rieni (menywod yn bennaf) sy'n cael Cymhorthdal Incwm yng Nghymru gyda phlentyn ieuengaf o dan 5 oed (nifer sydd ychydig yn is ond yn lled debyg i'r 22,600 o hawlwr yn Awst 2013). Disgwyliwn, felly, y bydd y mesur hwn yn effeithio ar 7,000 - 8,000 o unig rieni yng Nghymru.</p> <p>Bwriad y mesur yw gwella'r cymhellion i weithio. Er enghraifft, mae'r Aseiad Effaith Rhwymedigaeth Unig Riant³⁰ yn darparu tystiolaeth o'r effaith ar ganlyniadau cyflogaeth o ganlyniad i gynyddu'r gofynion ar unig rieni, o ran chwilio am waith a bod ar gael i weithio. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod cyflogaeth ymhlith gofalwyr plant 9 oed wedi cynyddu oddeutu 10 pwynt canran yn fwy nag y byddai fel arall, 9 mis ar ôl yr ymyriad. Gwelwyd y patrwm hwn hefyd pan ostyngwyd trothwy oedran y plentyn ieuengaf ymhellach.</p>

²⁶ Ffynhonnell: Trysorlys EM: Cyllideb yr Haf 2015.

²⁷ DWP (2015) *Welfare Reform and Work Bill: Impact Assessment of the change in conditionality for responsible carers on Universal Credit* (cyhoeddwyd Gorffennaf 2015).

²⁸ Prince, S. (2014) *Income Support Lone Parents by Jobcentre Plus District and Age of Youngest Child*. DWP Ad-hoc Statistical Release (March 2014)

<https://www.gov.uk/government/statistics/income-support-for-lone-parents-by-jobcentre-plus-district-and-age-of-youngest-child> Figures rounded to the nearest 100.

²⁹ DWP: Offeryn Tablu <http://83.244.183.180/100pc/> Figarau wedi eu talgrynnu i'r 100 agosaf.

³⁰ Avram, S. et al (2013) *Lone parent obligations: an impact assessment. A report for the Department for Work and Pensions*.

http://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/211688/rrep845.pdf

Newid polisi	Amserlen	Amcangyfrif o'r effaith
7. Cysoni'r gyfradd Grŵp Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith â'r Lwfans Ceisio Gwaith ar gyfer hawliadau newydd	O 2017-18 ymlaen	<p>Bydd taliadau LCCh (a'r elfen Galluogrwydd Cyfyngedig ar gyfer Gwaith o'r Credyd Cynhwysol), ar gyfer hawlwr yn y dyfodol yn unig, y tybir eu bod yn alluog i weithio (h.y. y rhai sydd yn y Grŵp Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith (GGGG)) yn cael eu cysoni â'r LCG a'r gyfradd safonol o Gredyd Cynhwysol. Bydd y gyfradd Grŵp Cymorth LCCh/Galluogrwydd Cyfyngedig ar gyfer Gwaith CC a'r gyfradd Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith yn parhau i gael eu talu i'r rhai sydd â'r cyflyrau ac anabledau mwyaf difrifol sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio (ar hyn o bryd mae'r rhain yn cyfansoddi tua 65 y cant o'r baich achosion LCCh³¹). Ni fydd y newid hwn yn effeithio ar hawlwr presennol, ac felly ni achosir unrhyw golledion ariannol. Darperir cyllid newydd (a gynyddir o £60 miliwn yn 2017-18 i £100 miliwn y flwyddyn yn 2020-21) ar gyfer cymorth ymarferol ychwanegol i hawlwr ddychwelyd i weithio. Er enghraifft, o Ebrill 2017 ymlaen, bydd y newid hwn yn golygu mai hawlogaeth hawlwr GGGG LCCh newydd sy'n sengl a thros 25 oed fydd £73.10 yr wythnos, yn unol â'r gyfradd LCG, o gymharu â £102.15 o dan y gyfradd GGGG LCCh bresennol (h.y. gwahaniaeth o £29.05 yr wythnos, sef £1,500 y flwyddyn). Rhagwelir y bydd y mesur hwn yn arbed £0.6 biliwn y flwyddyn i Drysorlys y DU erbyn 2020-21³².</p> <p>Disgwylir y bydd y niferoedd yr effeithir arnynt ym Mhrydain Fawr yn cynyddu i tua 500,000 o deuluoedd yn y tymor hir, os tybir bod y 500,000 o hawlwr GGGG presennol yn cynrychioli'r boblogaeth yr effeithir arni³³. Mae'r stoc o hawlwr GGGG yng Nghymru oddeutu 37,000³⁴. Amcangyfrifir y bydd y golled dybiannol³⁵ i bob teulu oddeutu £28 yr wythnos (sef gostyngiad tybiannol mewn incwm net o 10 y cant yn nhermau prisiau 2019-20). Mae'r rhai sydd yn hanner isaf y dosraniad incwm yn fwy tebygol o ddiodeff yr effaith (gan eu bod yn fwy tebygol o fod yn cael y gydran GGGG o'r LCCh neu'r elfen GCG o'r CC) o gymharu â'r rhai sydd yn hanner uchaf y dosraniad³⁶. O ran ymatebion ymddygiadol, nod y mesur yw gwella'r cymhellion i weithio. Er y bydd hyn yn cryfhau'r cymhelliad i ymuno â'r Grŵp Cymorth, mae'n bosibl y bydd rhai hawlwr yn dewis peidio â gwneud cais am LCCh, yn aros ar LCG/cyfradd safonol CC ac yn chwilio am waith. Bydd y rhai sy'n symud i waith yn wynebu effeithiau gwrthbwysol.</p>

³¹ Gwefan Nomis ONS, data Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar gyfer Tachwedd 2014 <http://www.nomisweb.co.uk/>

³² Ffynhonnell: Trysorlys EM: Cyllideb yr Haf 2015.

³³ DWP (2015) *Welfare Reform and Work Bill: Impact Assessment to remove the LCCh Work-Related Activity Component and the UC Limited Capability for Work element for new claims (July 2015)*.

³⁴ Gwefan Nomis ONS, data Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar gyfer Tachwedd 2014 <http://www.nomisweb.co.uk/>

³⁵ Mesur yw hwn o'r hyn y byddai hawlwr wedi bod yn gymwys i'w gael pe na bai'r polisi wedi ei newid, yn hytrach na cholled o incwm yr oedd hawlwr eisoes yn ei gael (sef 'colled ariannol').

³⁶ DWP (2015) *Welfare Reform and Work Bill: Impact Assessment to remove the LCCh Work-Related Activity Component and the UC Limited Capability for Work element for new claims (July 2015)*.

Newid polisi	Amserlen	Amcangyfrif o'r effaith
Parhad...		<p>Grwpiau a ddiogelir – Mae Asesiad Effaith y DWP yn nodi bod y mesur hwn yn debygol o effeithio ar niferoedd cyfartal o ddynion a menywod. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd y colledion tybiannol i wrywod ychydig yn fwy nag i fenywod (£22 yr wythnos neu 7 y cant o'r incwm wythnosol net, o gymharu ag £20 yr wythnos neu 6 y cant o'r incwm wythnosol net i fenywod). Mae'n debyg bod hyn i'w briodoli i'r ffaith bod nifer mwy o ddynion sengl, sy'n cael y budd-dal, yn byw mewn teuluoedd sydd â llai o ffynonellau incwm eraill (e.e. enillion neu gymorth arall gan y wladwriaeth), a bod y golled dybiannol o ganlyniad yn cynrychioli cyfran uwch o'u hincwm³⁷.</p> <p>Er bod y rhai sydd â'r cyflyrau ac anabledau mwyaf difrifol sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio yn esempt o'r mesur hwn, mae mwyafrif o'r rhai yr effeithir arnynt yn byw mewn teuluoedd lle mae rhywun yn disgrifio'i hunan fel person anabl (ar sail y diffiniad yn Neddf Cydraddoldeb 2010). Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod y rhai sy'n datgan bod ganddynt anabled yn fwy tebygol o fod yn gymwys i gael y budd-daliadau y mae'r mesur hwn yn ymwneud â hwy³⁸.</p> <p>Gan fod y mesur hwn yn ymwneud â hawlwr mewn oedran gwaith, ni fydd yn effeithio yn uniongyrchol ar bensiynwyr. Gwybodaeth gyfyngedig, neu ddim gwybodaeth, sydd gan y DWP ynghylch gweddill y nodweddion a ddiogelir.</p>
8. Tynnu hawlogaeth i gymorth tai oddi ar y rhan fwyaf o unigolion 18-21 oed sydd heb blant ac allan o waith	O 2017-18 ymlaen	<p>Ni fydd hawl awtomatig i gael yr elfen dai gan y rhai sydd allan o waith yn 18 – 21 oed ac yn gwneud hawliad newydd am Gredyd Cynhwysol. Mae esemptiadau ar gyfer pobl hygwyf, rhai sydd â phlant, y rhai a allai fod yn analluog i ddychwelyd gartref i fyw gyda'u rhieni, a rhai a fu mewn gwaith am 6 mis cyn gwneud hawliad, a fydd yn parhau'n alluog i gael cymorth tai am 6 mis tra byddant yn chwilio am waith. Rhagwelir y bydd y mesur hwn yn arbed £40 miliwn y flwyddyn i Drysorlys y DU erbyn 2020-21³⁹.</p> <p>Yn Chwefror 2015, roedd 1,060 o hawlwr 18-21 oed heb ddim plant yng Nghymru yn cael LCG a Budd-dal Tai a'u taliad Budd-dal Tai wythnosol cyfartalog oddeutu £90 yr wythnos⁴⁰ (sef cyfanswm yng Nghymru o £5 miliwn y flwyddyn). Er y bydd y baich achosion presennol yn cael ei ddiogelu rhag y newid hwn, byddid yn disgwyl baich achosion cyffelyb o dan y Credyd Cynhwysol pe na bai'r polisi hwn wedi ei fabwysiadu. Defnyddir y ffigur uchod felly fel y dangosydd gorau o effaith y polisi yn y tymor canol. Byddai'r mesur hwn naill ai'n cynyddu'r cymhelliad i symud i waith cyflogedig, neu hawlio math gwahanol o fudd-dal di-waith megis LCCh neu Gymhorthdal Incwm.</p>

³⁷ Ibid.

³⁸ Ibid.

³⁹ Ffynhonnell: Trysorlys EM: Cyllideb yr Haf 2015.

⁴⁰ DWP StatXplore – data Budd-dal Tai ar gyfer Chwefror 2015.

Newid polisi	Amserlen	Amcangyfrif o'r effaith
9. Diddymu'r elfen deulu mewn credydau treth a Chredyd Cynhwysol, a'r premiwm teulu mewn Budd-dal Tai, ar gyfer hawliadau newydd	O 2016-17 ymlaen	<p>Ni fydd y rhai a fydd yn dechrau magu teulu ar ôl Ebrill 2017 yn gymwys mwyach i gael yr elfen deulu (sef yr elfen sylfaenol ar gyfer teuluoedd sy'n gyfrifol am un neu ragor o blant neu bobl ifanc cymwys) mewn credydau treth (£545 y flwyddyn i bob teulu). Ni fydd yr elfen gyfatebol mewn Credyd Cynhwysol ar gael ychwaith i hawlwy newydd ar ôl Ebrill 2017, sef y premiwm plentyn cyntaf (£277.08 y mis ar gyfer y plentyn cyntaf, o gymharu a'r gyfradd ar gyfer pob plentyn ychwanegol, £231.67, h.y. premiwm of £45.41 y mis⁴¹). Gwneir newidiadau cyffelyb mewn Budd-dal Tai, drwy ddiddymu'r premiwm teulu ar gyfer plant a enir neu hawliadau a wneir ar ôl Ebrill 2016. Diogelir aelwydydd sydd wedi bod yn cael credydau treth neu Gredyd Cynhwysol gyda thoriad o lai na 6 mis; hefyd, rhiant sengl eisoes ar CC sy'n ffurfio cwpl gyda hawlwydd sengl nad yw ar CC; a rhai sy'n symud oddi ar gredydau treth i CC. Rhagwelir y bydd y mesur hwn yn arbed £0.7 biliwn y flwyddyn i Drysorlys y DU erbyn 2020-21⁴². Mae'r IFS yn amcangyfrif y bydd yr arbediad hirdymor hyd yn oed yn fwy (£2 biliwn y flwyddyn) wrth i'r diogelwch trosiannol i deuluoedd presennol edwino⁴³.</p> <p>Mae'r IFS yn amcan gyfrif y bydd y mesur hwn yn effeithio ar tua 4 miliwn o deuluoedd⁴⁴. Tybiannol fydd y colledion, ac felly ni fydd colledion ariannol. Disgwylir y bydd nifer y teuluoedd yr effeithir arnynt yng Nghymru yn tyfu i tua 200,000 o deuluoedd yn y tymor hir, os defnyddir y stoc gyfredol o deuluoedd sy'n cael Credydau Treth Plant i gynrychioli'r boblogaeth yr effeithir arni⁴⁵. Mae Asesiad Effaith DWP⁴⁶ yn nodi y gallai menywod fod yn fwy tebygol na gwrywod o ddioddef effaith y mesur, gan fod cyfran uchel o unig rieni (sef menywod yn bennaf) yn cael Credyd Treth Plant. Mae'n bosibl hefyd ei bod yn fwy tebygol yr effeithir ar aelwydydd lleiafrifoedd ethnig gan eu bod, ar gyfartaledd, yn fwy tebygol o gael y budd-daliadau hyn. O blith yr aelwydydd sy'n cael budd-daliadau lles, mae'n lai tebygol yr effeithir ar rai sydd ag anabledd, gan eu bod yn llai tebygol o fod yn aelwydydd â phlant.</p>

⁴¹ Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin (2014) Uwchraddiad Budd-daliadau 2015 (mae'r cyfraddau'n ymwneud â blwyddyn ariannol 2015/16).

⁴² Ffynhonnell: Trysorlys EM: Cyllideb yr Haf 2015.

⁴³ Hood, A. (2015) *Benefit changes and distributional analysis. A presentation for the IFS Post-Budget Briefing Event on 9 July 2015.*

⁴⁴ Ibid.

⁴⁵ Amcan gyfrif Llywodraeth Cymru, ar sail CThEM: *Child and Working Tax Credits Statistics Finalised Annual Awards 2013-14 – Geographical Analysis.*

⁴⁶ DWP (2015) *Welfare Reform and Work Bill: Impact Assessment of Tax Credits and Universal Credit, changes to child element and family element (July 2015).*

Newid polisi	Amserlen	Amcangyfrif o'r effaith
10. Cyflwyno Rhwymedigaeth leuenctid ar gyfer hawlwr 18 – 21 oed sy'n cael Credyd Cynhwysol	O 2017-18 ymlaen	<p>Yng Nghyllideb yr Haf 2015 Llywodraeth Cymru, cyhoeddwyd y bydd yn ofynnol i bobl ifanc 18-21 oed gymryd rhan mewn trefniant cymorth dwys, a fydd yn cychwyn ar ddiwrnod cyntaf eu hawliad budd-dal. Darperir y cymorth mwyaf 'dwys' yn ystod tair wythnos gyntaf yr hawliad (nid yw'r manylion llawn ar gael hyd yma, ond deallwn y gallai hyn gynnwys mwy o gyfarfodydd rheolaidd gyda'r Hyfforddwr Gwaith), ac ar ôl 6 mis o'r hawliad, byddant dan orfodaeth i wneud cais naill am brentisiaeth neu gyfle hyfforddiant sgiliau, neu ymgymryd â phrofiad neu leoliad gwaith, er mwyn ennill y sgiliau y bydd arnynt eu hangen er mwyn symud i gyflogaeth gynaliadwy.</p> <p>Mae DWP wedi nodi y bydd y Rhwymedigaeth leuenctid yn effeithio ar tua 50,000 o bobl ifanc ledled y DU, ac y bydd 4,000 ohonynt yng Nghymru. Nid yw manylion a mecanweithiau hyn eto wedi eu datblygu'n llawn gan DWP, a bydd rhaid sicrhau ein bod yn deall y goblygiadau i'r ddarpariaeth a gyllidir gan Lywodraeth Cymru/Cronfa Gymdeithasol Ewrop (megis prentisiaethau a rhaglenni hyfforddi eraill), yn enwedig o ystyried yr amodoldeb a osodir gan y mesur hwn.</p>
11. Cymorth ar gyfer Llog ar Forgais: newid o daliad lles i fenthyciad	O 2018-19 ymlaen	<p>Ar hyn o bryd, gall y rhai sy'n cael budd-daliadau i'w helpu i dalu eu llog morgais barhau i wneud hynny am gyfnod amhenodol heb orfodaeth i dalu dim yn ôl. Yng Nghyllideb yr Haf, fodd bynnag, cyhoeddwyd y bydd y cynllun Cymorth ar gyfer Llog ar Forgais (CLIF) yn cael ei drawsnewid yn fenthyciad, fel y bydd perchnogion tai yn ad-dalu'r cymorth ariannol a dderbyniant. O Ebrill 2018 ymlaen bydd taliadau CLIF yn cael eu talu fel benthyciadau. Ad-delir y benthyciadau pan werthir y tai, neu pan fo'r hawlwr yn dychwelyd i weithio. Rhagwelir y bydd y mesur hwn yn arbed £251 miliwn y flwyddyn i Drysorlys y DU erbyn 2020-21⁴⁷.</p> <p>Bydd y mesur hwn yn effeithio ar bawb sy'n cael CLIF (os tybir eu bod ganddynt y gallu ariannol i wneud yr ad-daliadau). Yn ôl Asesiad Effaith DWP, mae tua 170,000 o hawlwr ym Mhrydain Fawr yn cael CLIF ar hyn o bryd. Mae tua 55 y cant ohonynt mewn oedran gwaith a 45 y cant mewn oedran pensiwn. Rhagamcener y bydd y ffigur cyfatebol yn 160,000, gyda 63 y cant mewn oedran gwaith a 37 y cant mewn oedran pensiwn⁴⁸. Yn Chwefror 2015, roedd tua 1,000 o hawlwr Cymorthdal Incwm a 370 o hawlwr Lwfans Ceisio Gwaith yng Nghymru yn cael CLIF⁴⁹. Ni chyhoeddir data ar lefel Cymru am nifer yr hawlwr Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a Chredyd Pensiwn sy'n cael CLIF.</p>

⁴⁷ Asesiad cost gan OBR, y cyfeiri ato yn DWP (2015) *Welfare Reform and Work Bill: Impact Assessment for Converting Support for Mortgage Interest from a benefit into a loan*.

⁴⁸ DWP (2015) *Welfare Reform and Work Bill: Impact Assessment for Converting Support for Mortgage Interest from a benefit into a loan*.

⁴⁹ Data a gasglwyd o Offeryn Tablu DWP <http://83.244.183.180/100pc/>

3. Toriadau lles sy'n digwydd yn Lloegr yn unig

Newid polisi	Amserlen	Amcangyfrif o'r effaith
12. Gostwng rhenti'r sector cymdeithasol yn Lloegr o 1 y cant bob blwyddyn am 4 blynedd	O 2016-17 ymlaen	<p>Cyhoeddodd Llywodraeth y DU yn ddiweddar y bydd rhenti cymdeithasol yn Lloegr yn gostwng 1 y cant bob blwyddyn am 4 blynedd o 2016-17 ymlaen. Rhagwelir y bydd y mesur hwn yn arbed £1.4 biliwn y flwyddyn i Drysorlys y DU erbyn 2020-21⁵⁰. Yn ôl dadansoddiad IFS⁵¹, mae hyn yn cynrychioli toriad o 12 y cant o gymharu â'r polisi blaenorol (sef rhenti yn cynyddu o CPI + 1 pwynt canran bob blwyddyn) ar sail y rhagolygon presennol, ac yn golygu y bydd 1.2 miliwn o deuluoedd, nad ydynt yn cael Budd-dal Tai, yn ennill ar gyfartaledd tua £700 y flwyddyn (yn nhermau prisiau cyfredol). Gan fod y mwyafrif (2.7 miliwn) o deuluoedd tenantiaid cymdeithasol yn Lloegr yn cael Budd-dal Tai, ni fyddant ar eu hennill yn uniongyrchol, ond bydd eu cymhellion i weithio yn cryfhau. Arfer od, ym marn yr IFS, yw darlunio'r newid hwn fel toriad lles, gan ei bod yn amlwg mai'r hyn ydyw yw cynnydd yn y cymhorthdal i denantiaid cymdeithasol. Mae'n gost ychwanegol a gaiff ei gosod at awdurdodau lleol a chymdeithasau tai⁵². Parodd hynny i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) gymryd y cam anghyffredin o rybuddio'r Canghellor y gallai ei strategaeth o gyfarwyddo Cymdeithasau Tai ynglŷn â'u polisiau arwain yn anfwriadol at eu tynnu i mewn i'r sector cyhoeddus. Pe digwyddai hynny, byddai'n achosi cynnydd yn ddyled a'r benthyca cyhoeddus cofnodedig⁵³. O ran yr effaith ar landlordiaid cymdeithasol, mae'r IFS yn amcangyfrif y bydd cyfanswm eu hincwm o renti yn gostwng o leiaf £2.5 biliwn (yn nhermau prisiau cyfredol), a gobaith Llywodraeth y DU yw y bydd arbedion effeithlonrwydd yn amsugno'r gostyngiad hwnnw. Gallai hynny, fodd bynnag, ysgogi effeithiau o ran gwaith cynnal a/neu adeiladu⁵⁴.</p> <p>Mae tai yng Nghymru yn fater datganoledig. Gwnaed cytundeb gyda landlordiaid cymdeithasol sy'n eu galluogi i gynyddu rhenti yn flynyddol hyd at 2018-19 yn unol â fformiwla benodedig. Mae cynlluniau busnes cyfredol y landlordiaid cymdeithasol yn cynnwys cynnal Safonau Ansawdd Tai Cymru, adeiladu o'r newydd a gwasanaethau tenantiaid ac yn seiliedig ar y rhagdybiaeth hon. Yn dilyn y cyhoeddiadau yng Nghyllideb y DU ar 8 Gorffennaf, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cydweithio'n glòs gyda rhanddeiliaid allweddol i gasglu gwybodaeth a nodi unrhyw oblygiadau a newidiadau posibl, a'r effaith y gallai hynny ei gael ar y tenantiaid heddiw ac yn y dyfodol, y landlordiaid cymdeithasol a'u cyllidwyr. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyfarfod yr holl rhanddeiliaid yn ystod mis Medi i ystyried ein hopsiynau ar gyfer symud ymlaen â'n polisi rhentu cymdeithasol.</p>

⁵⁰ Ffynhonnell: Trysorlys EM: Cyllideb yr Haf 2015.

⁵¹ Hood, A. (2015) *Benefit changes and distributional analysis. A presentation for the IFS Post-Budget Briefing Event on 9 July 2015.*

⁵² Johnson, P. (2015) *Opening Remarks - IFS Post-Budget Briefing Event on 9 July 2015.*

⁵³ Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (2015) *Economic and Fiscal Outlook, July 2015.*

⁵⁴ Hood, A. (2015) *Benefit changes and distributional analysis. A presentation for the IFS Post-Budget Briefing Event on 9 July 2015.*

Newid polisi	Amserlen	Amcangyfrif o'r effaith
13. Tenantiaid cymdeithasol yn Lloegr sydd ar incwm uwch i dalu rhenti'r farchnad	O 2017-18 ymlaen	Gwneir yn ofynnol bod tenantiaid tai cymdeithasol sydd ar incwm uwch (£40,000 a throsodd yn Llundain, a £30,000 a throsodd mewn mannau eraill yn Lloegr) yn talu rhenti ar gyfradd y farchnad, neu'n agos at gyfradd y farchnad, am eu llety. Nod y polisi yw sicrhau fod lefel y rhent a delir yn deg, neu fod tai cymdeithasol ar gael i'r rhai sydd fwyaf mewn angen. Bydd awdurdodau lleol yn talu'r cymhorthdal rhent, a adenillir oddi ar y tenantiaid sydd ar incwm uchel, i'r Trysorlys. Gallai Cymdeithasau Tai ddefnyddio'r cymhorthdal rhent a adenillir i ail-fuddsoddi mewn tai newydd. Rhagwelir y bydd y mesur hwn yn arbed £0.2 biliwn y flwyddyn i Drysorlys y DU erbyn 2020-21 ⁵⁵ . Fel y crybwyllir uchod, mae tai yn fater datganoledig yng Nghymru, ac nid oes unrhyw fwriad ar hyn o bryd i weithredu polisi o'r fath yng Nghymru.

⁵⁵ Ffynhonnell: Trysorlys EM: Cyllideb yr Haf 2015.

4. Mesurau treth bersonol

- Y prif fesurau treth bersonol a gyhoeddwyd yng Nghyllideb yr Haf Llywodraeth y DU yw'r canlynol:
 - Bydd y pwynt pan fo person yn dechrau talu'r dreth incwm, a adwaenir fel **lwfans personol y dreth incwm**, yn parhau i godi yn gyflymach na chwyddiant. Bydd yn **cynyddu o £10,600 yn 2015-16 i £11,000 yn 2016-17 ac i £11,200 yn 2017-18**. Mae'r codiadau hyn yn fwy na'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol (sef cynnydd i £10,800 yn 2016-17 ac i £11,000 yn 2017-18). Mae Llywodraeth y DU wedi addo hefyd y cynyddir y lwfans personol i £12,500 erbyn diwedd oes y senedd bresennol. Rhagwelir y bydd cost y mesur hwn i Drysorlys y DU yn £1.2 biliwn y flwyddyn erbyn 2017-18⁵⁶ (os rhagdybir na fydd unigolion yn ymateb i'r newid drwy addasu eu hymddygiad⁵⁷); ac mae'r IFS yn amcangyfrif y bydd talwyr treth incwm ar y gyfradd sylfaenol ar eu hennill o £40 y flwyddyn o ganlyniad i'r mesur⁵⁸. Dylid nodi, oherwydd bod y lwfans personol wedi cynyddu dros y pum mlynedd diwethaf, fod llai o'r unigolion sydd ar incwm isel yn talu'r dreth incwm erbyn hyn, ac na fydd lawer ohonynt yn cael budd o godiadau pellach yn y lwfans personol. Yn 2014, 57 y cant yn unig o oedolion y DU oedd yn talu'r dreth incwm (o gymharu â 61 y cant yn 2010-11), sy'n golygu na fyddai'r 43 y cant o'r oedolion isaf o ran eu hincwm yn cael budd o godiadau pellach yn y lwfans personol⁵⁹. Oherwydd cyn lleied o bobl sy'n talu'r dreth incwm, ac o ystyried y modd y mae'r systemau treth a budd-daliadau yn rhyngweithio, a'r ffaith mai cyplau sydd â'r ddau bartner yn gweithio yw'r enillwyr mwyaf wrth i'r ddau gael budd o'r lwfans uwch, mae'n amlwg mai'r rhai sydd yn rhannau canol a chanol-uchaf y dosraniad incwm a fydd yn cael y budd mwyaf (yn nhermau canran o'u hincwm) o gynyddu'r lwfans personol. Mae'r budd ariannol cyfartalog uchaf sy'n deillio o gynyddu'r lwfans personol yn digwydd yn y ddegradd ail-gyfoethocaf o'r dosraniad incwm. Ni fyddai cynyddu'r lwfans personol yn cynyddu incwm y tlotaf yn y gymdeithas⁶⁰. Mae'r IFS yn nodi y byddai codi'r trothwy pan ddaw Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYGau) cyflogeion yn daladwy (£8,060 y flwyddyn i weithwyr amser llawn) yn cynorthwyo mwy o enillwyr ar gyflogau isel yn hytrach na chynyddu lwfans personol y dreth incwm⁶¹.

Bydd codiadau pellach, fodd bynnag, o gymorth i bobl sy'n 65 oed neu'n hŷn. Nifer fach o bobl yn y categori hwn sydd wedi cael budd o'r codiadau hyd yma. er eu bod, yn hanesyddol, wedi mwynhau lwfansau personol uwch na phobl sydd o dan 65. Fodd bynnag, mae'r lwfansau i rai dan 65 bellach wedi cyrraedd yr un lefel â'r lwfansau i rai 65 oed a throsodd. Yr un fydd y lwfansau i bobl o bob oedran o 2016-17 ymlaen, sy'n golygu y bydd lwfansau personol pensiynwyr hefyd yn codi os bydd codiad eto yn y prif lwfans personol.

⁵⁶ Ffynhonnell: Trysorlys EM: Cyllideb yr Haf 2015.

⁵⁷ Mae'r IFS yn nodi y gall gynyddu rhywfaint ar y cymhellion i weithio, ond mai bach, yn ôl pob tebyg, fydd yr effaith honno, ac felly bod yr amcangyfrif 'rownd gyntaf' hwn o'r costau yn debyg o fod yn ddigonol (Adam, S. et al (2015) *Taxes and Benefits: The Parties' Plans. IFS Briefing Note BN172*).

⁵⁸ Adam, S. (2015) *Tax measures. A presentation for the IFS Post-Budget Briefing Event on 9 July 2015*.

⁵⁹ Ibid.

⁶⁰ Ibid. Sylwer: Cynhelir y prawf modd ar gyfer Credyd Cynhwysol ar yr incwm ar ôl treth. O ganlyniad, bydd unrhyw ostyngiad yn y dreth incwm yn lleihau swm y cymorth 'prawf modd' y bydd yr hawlydd yn ei gael. Oherwydd y rhyngweithiad hwn rhwng y systemau treth a budd-daliadau, ni fydd trethdalwr nodweddiadol sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn cael mwy na 35 y cant o werth y gostyngiad mewn rhwymedigaeth treth a fydd yn deillio o'r cynnydd yn y lwfans personol.

⁶¹ Ibid.

- Bydd y lefel pan ddechreuir cymhwyso'r gyfradd uwch o dreth incwm (40 y cant), sef y **trothwy incwm cyfradd uwch, yn codi o 42,385 yn 2015-16 i £43,000 yn 2016-17**. Rhagwelir y bydd cost y mesur hwn i Drysorlys y DU yn £0.2 biliwn y flwyddyn erbyn 2017-18⁶², ac mae IFS yn amcangyfrif y bydd talwyr treth incwm ar y gyfradd uwch sydd ag incymau o lai na £122,000 ar eu hennill o £70 y flwyddyn oherwydd y cyfuniad o'r polisi hwn a'r newidiadau mewn lwfansau personol⁶³. Mae'n eglur na fydd codi'r trothwy cyfradd uwch o fudd i neb ond i dalwyr treth incwm ar y gyfradd uwch, a leolir yn nodweddiadol yn agos at ben uchaf y dosraniad incwm. Mae'r rhagamcanion ar gyfer 2015-16 yn dangos mai 140,000 (neu 10 y cant) o'r holl drethdalwyr yng Nghymru sy'n drethdalwyr cyfradd uwch⁶⁴.
- Bydd y **trothwy treth etifeddiant (IHT) ar gyfer cyplau yn codi i £1 miliwn o 2020-21 ymlaen**. Rhagwelir y bydd cost y mesur hwn i Drysorlys y DU yn £0.9 biliwn y flwyddyn erbyn 2020-21, a disgwylir iddo ostwng nifer y stadau yn y DU a fydd â rhwymedigaeth treth yn 2020-21 i 37,000. Heb y polisi, disgwylid y byddai gan 63,000 o stadau rwymedigaeth treth yn 2020-21⁶⁵. Bydd y budd o'r toriad IHT hwn yn mynd, yn anghymesur, i rai sy'n agos at ben uchaf y dosraniad incwm⁶⁶. Nid yw Treth Etifeddiant yn effeithio ar y rhan fwyaf o bobl. Tua 2.9 y cant yn unig o'r holl farwolaethau yn y DU yn ystod 2011-12 a arweiniodd at daliad IHT, sef cyfran debyg i gyfran y blynyddoedd blaenorol⁶⁷. Yn 2011-12, swm y Dreth Etifeddiant a oedd yn ddyledus yng Nghymru oedd £53 miliwn (sef 2 y cant) allan o'r £2.7 biliwn a oedd yn ddyledus drwy'r DU; gyda 500 o drethdalwyr yng Nghymru sef 3 y cant o'r 16,000 drwy'r DU⁶⁸.
- Er mwyn talu am y diwygiadau i'r dreth etifeddiant a rheoli cost y rhyddhad treth ar bensiynau, o 2016-17 ymlaen, **gweithredir tapr ar y Lwfans Blynyddol (sef y terfyn ar swm y cynilion pensiwn sy'n denu rhyddhad treth, y caniateir i unigolyn neu ei gyflogwr eu gwneud bob blwyddyn) ar gyfer rhai sydd â'u hincwm blynyddol addasedig⁶⁹, gan gynnwys eu cyfraniadau pensiwn eu hunain a chyfraniadau eu cyflogwr, dros £150,000**. Ar gyfer pob £2 o incwm addasedig dros £150,000, gwneir gostyngiad o £1 yn Lwfans Blynyddol yr unigolyn, nes cyrhaeddir isafswm o £10,000 (o gymharu â'r terfyn blynyddol presennol o £40,000). Rhagwelir y bydd y mesur hwn yn arbed £1.3 biliwn y flwyddyn i Drysorlys y DU erbyn 2020-21⁷⁰. Mae CThEM yn amcangyfrif y bydd y mesur yn effeithio ar oddeutu 300,000 o gynilwyr pensiwn yn y DU⁷¹.

⁶² Ffynhonnell: Trysorlys EM: Cyllideb yr Haf 2015.

⁶³ Ibid.

⁶⁴ DWP (2015) *Income Tax Statistics and Distributions – Table 2.2: Number of income taxpayers, by country* <https://www.gov.uk/government/statistics/number-of-individual-income-taxpayers-by-marginal-rate-gender-and-age-by-country>

⁶⁵ Ffynhonnell: Trysorlys EM: Cyllideb yr Haf 2015.

⁶⁶ Adam, S. et al (2015) *Taxes and Benefits: The Parties' Plans. IFS Briefing Note BN172*.

⁶⁷ <https://www.gov.uk/government/statistics/inheritance-tax-statistics-2010-to-2011>

⁶⁸ <https://www.gov.uk/government/statistics/inheritance-tax-taxpaying-estates-provisional-amounts-of-tax-paid-in-2010-to-2011-by-government-office-regions>


⁶⁹ Cynhwysir enillion trethadwy a phob cyfraniad pensiwn, ond ni chynhwysir cyfraniadau elusennol.

⁷⁰ Ffynhonnell: Trysorlys EM: Cyllideb yr Haf 2015.

⁷¹ HMRC (2015) *Pensions tapered annual allowance*.


5. Effaith ddosraniadol y diwygiadau treth a budd-daliadau (canran o'r incwm net)

- Mae dadansoddiad gan IFS yn dangos bod y newidiadau treth a cudd-daliadau gan Lywodraeth y DU yn cymryd llawer mwy oddi ar aelwydydd incwm isel nag aelwydydd incwm uchel, rhwng Ebrill 2015 ac Ebrill 2019. Bydd hyn yn cael effeithiau negyddol o ran tlodi. Er enghraifft, fel y dengys y siart isod, mae aelwydydd yn y grwpiau incwm isaf yn colli oddeutu 7 y cant o'u hincwm net ar gyfartaledd, o gymharu â cholled gyfartalog ddibwys i'r grŵp incwm cyfoethocaf. Mae'r golled gyfartalog ar gyfer yr holl aelwydydd oddeutu 1.5 y cant o'r incwm net.




Ffynhonnell: Hood, A. (2015) *Benefit changes and distributional analysis*. A presentation for the IFS Post-Budget Briefing Event on 9 July 2015.

- Mae'r siart isod yn darlunio effaith y diwygiadau treth a budd-daliadau fesul y math o aelwyd. Dangosir bod y diwygiadau yn taro galetaf yr aelwydydd oedran gwaith sydd â phlant, yn enwedig yr aelwydydd tlawd. Er enghraifft, ar gyfartaledd mae aelwydydd oedran gwaith sydd â phlant yn colli tua 3 y cant o'u hincwm net, o gymharu ag 1 y cant yn achos aelwydydd oedran gwaith sydd heb blant a phensiynwyr. Mae siart sy'n dangos y colledion ariannol yn **Atodiad 1**.



Ffynhonnell: Hood, A. (2015) *Benefit changes and distributional analysis. A presentation for the IFS Post-Budget Briefing Event on 9 July 2015.*

- Os edrychir yn fanwl fesul y math o aelwyd, gwelir mai rhai sydd â phlant ac yn ddi-waith sy'n dioddef y colledion mwyaf fel canran o'u hincwm net, ar gyfartaledd. Er enghraifft, ar gyfartaledd, byddai cwpl sydd â phlant ac yn ddi-waith yn colli tuag 16 y cant o'u hincwm net ac unig riant sy'n ddi-waith yn colli 15 y cant o'i incwm net, o gymharu â chynnydd bach ar gyfartaledd i gwpl heb blant sydd â'r ddau bartner yn enillwyr a cholled gyfartalog i'r holl aelwydydd o tuag 1.5 y cant. Mae siart sy'n dangos y colledion ariannol yn **Atodiad 1**.



Ffynhonnell: Hood, A. (2015) *Benefit changes and distributional analysis*. A presentation for the IFS Post-Budget Briefing Event on 9 July 2015.

6. Lleiafswm Cyflog Cenedlaethol uwch i rai 25 oed a throsodd

- O Ebrill 2016 ymlaen, cyflwynir lleiafswm cyflog cenedlaethol uwch ar gyfer unigolion 25 oed a throsodd. Mae'r Canghellor wedi cyfeirio at hwn fel y 'Cyflog Byw Cenedlaethol'. Pennir y gyfradd ddechreuol ar £7.20 yr awr, sef 70c yn uwch na'r gyfradd bresennol a 50c yn uwch na'r codiad a ddaw i rym yn Hydref 2015. Bwriedir codi'r gyfradd wedyn, nes cyrraedd 60 y cant o ganolrif yr enillion fesul awr erbyn 2020. Ar sail rhagolygon enillion OBR, gwerth hyn yn Ebrill 2020 fydd £9.35, sef 13 y cant yn uwch nag y byddai wedi bod fel arall (h.y. pe bai'r LICC wedi cynyddu yn unol ag enillion cyfartalog fesul awr)⁷².
- Er gwaethaf yr enw 'Cyflog Byw Cenedlaethol', nid yr un peth yw'r polisi hwn a'r Cyflog Byw gwirfoddol sydd wedi ei sefydlu gan y Sefydliad Cyflog Byw. Cyflog Byw presennol y DU y tu allan i Lundain yw £7.85 yr awr; cyfrifir ef gan Ganolfan Ymchwil Polisi Cymdeithasol (CRSP), Prifysgol Loughborough a phennir ef yn flynyddol bob Mis Tachwedd gan y Sefydliad Cyflog Byw. Mae'r cyfrifiad yn seiliedig ar yr Isafswm Cyflog Safonol ar gyfer y Deyrnas Unedig, fel y'i hawgrymir gan ymchwil a wneir gan CRSP. Mae'r ymchwil yn ystyried pa bethau sydd eu hangen ar aelwydydd er mwyn cyrraedd safon byw ofynnol sy'n dderbyniol. Gan fod hyn yn cymryd i ystyriaeth swm yr incwm o fudd-daliadau a chredyd treth y byddai unigolyn yn ei gael, byddai'r toriadau lles a gyhoeddwyd yng Nghyllideb yr Haf yn cynyddu ymhellach y cyflog byw sydd ei angen er mwyn cyrraedd y safon ofynnol sy'n dderbyniol⁷³.
- Mae'r OBR yn amcangyfrif y byddai 2.7 miliwn o bobl a fyddai'n ennill llai na £9.35 yr awr yn 2020 yn cael codiad yn eu tâl fesul awr, a hynny'n cael effaith ganlyniadol ar eraill yn uwch i fyny'r dosraniad cyflogau (amcangyfrifir y byddai 3.25 miliwn o bobl eraill ychwanegol hefyd yn cael codiad cyflog). Mae IFS yn nodi bod y rhai yr effeithir arnynt yn fwy tebygol o fod yn weithwyr rhan-amser ac yn fenywod, ac y bydd gan hanner eu nifer bartner sy'n gweithio⁷⁴. Amcangyfrifwyd bod 143,970 o weithwyr yng Nghymru a oedd dros 25 oed ac yn ennill llai na £7.20 yr awr yn 2014 (roedd 65,985 yn gyflogeion amser llawn a 77,985 yn rhan-amser)⁷⁵.
- Mae'r OBR wedi amcangyfrif yr effeithiau anuniongyrchol ar yr economi yn ogystal . Dengys yr amcangyfrifon hyn y gallai gostyngiad ddigwydd yn yr oriau a weithir ac mewn cyflogaeth, yn ogystal â chodiad mewn cyflogau. Er enghraifft, mae amcangyfrif canolog OBR yn dangos lleihad o 60,000 mewn cyflogaeth yn 2020, sef 2 y cant o'r rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol. Fodd bynnag, mae cryn ansicrwydd ynglŷn â'r amcangyfrif hwn. Gwnaed gostyngiad hefyd o 0.1 y cant yn rhagamcan OBR o'r CMC yn 2020 oherwydd y cyhoeddiad hwn.
- Bu llawer o drafod ynglŷn ag i ba raddau y bydd yr isafswm cyflog uwch arfaethedig yn gwrthbwysio effeithiau'r credydau treth gostyngedig. Gwnaed dau bwynt pwysig gan yr IFS ynglŷn â'r mater hwn: yn gyntaf, effeithir ar wahanol grwpiau gan y

⁷² OBR (2015) *Economic and Fiscal Outlook, July 2015*.

⁷³ Llywodraeth yr Alban (2015) *Initial Assessment of Budget Tax and Benefit Reforms, July 2015*.


⁷⁴ Ffynhonnell: Hood, A. (2015) *Benefit changes and distributional analysis. A presentation for the IFS Post-Budget Briefing Event on 9 July 2015*.

⁷⁵ Ffynhonnell: *Annual Survey of Hours and Earnings (ASHE)*. Sylwer: Nid yw ASHE yn cynnwys hunangyflogaeth.

gwahanol bolisiau, sydd hefyd yn gwahaniaethu o ran eu hamcanion a'u heffeithiau. Er enghraifft, mae llawer o'r bobl sydd ar eu hennill o ganlyniad i'r cyflog uwch naill ai'n sengl a di-blau, neu'n bobl sydd â phartner ar enillion uwch, ac nad ydynt yn cael credyd treth; yn ail, mae'r cynnydd gros mewn incwm o gyflogaeth o ganlyniad i'r cyflog uwch oddeutu £4 biliwn (a rhan o'r swm hwnnw wedi ei llyncu gan dreth incwm, cyfraniadau yswiriant gwladol neu fudd-daliadau a dynnir yn ôl), ac felly mae'n llai o lawer na'r swm y mae'r y toriadau lles yn ei dynnu ymaith (sef £13 biliwn y flwyddyn erbyn 2020-21). Yn ogystal, fel y crybwyllir uchod, bydd llawer o bobl nad ydynt derbyn credyd treth yn cael budd o'r cyflog uwch. Mae'r IFS wedi canolbwyntio'n ddiamwys ar dderbynwyr credyd treth cyfartalog sydd mewn gwaith, ac a fydd mewn gwaeth sefyllfa oherwydd y mesurau yng Nghyllideb yr Haf⁷⁶.

- Er bod y cyflog uwch i rai sy'n 25 oed a throsodd yn chwyddo enillion unigolion sy'n agos at waelod y dosraniad incwm *unigolion*, mae dadansoddiad OBR yn dangos y disgwylir i'r cyflog uwch gael effaith sydd bron i'r gwrthwyneb ar ddosraniad incymau *aelwydydd* yn nhermau arian. Bydd hyn yn digwydd oherwydd mai ail enillwyr yr aelwydydd fydd llawer o'r gweithwyr a fydd ar eu hennill o'r cyflog uwch. Mae'r OBR yn amcangyfrif y bydd tua hanner y cynnydd ariannol yn incwm yr aelwydydd yn cronni yn hanner uchaf y dosraniad incwm aelwydydd. Bydd hyn yn digwydd yn rhannol oherwydd bod gweithwyr yn y degraddau incwm uwch sydd ar eu hennill o'r mesur yn cael swm ariannol mwy, fel y darlunnir yn y siart isod⁷⁷. Er enghraifft, ar gyfartaledd, mae'r aelwydydd ar yr incwm uchaf ar eu hennill o tua £1,000 y flwyddyn o ganlyniad i'r cyflog uwch, o gymharu â chynnydd cyfartalog o lai na £600 y flwyddyn i aelwydydd ar yr incwm isaf.


Enillion ychwanegol cyfartalog i aelwydydd sydd ar eu hennill yn 2020



⁷⁶ Johnson, P. (2015) *Opening Remarks - IFS Post-Budget Briefing Event on 9 July 2015*.


⁷⁷ OBR (2015) *Economic and Fiscal Outlook, July 2015*.

Atodiad 1 - Effaith ddosraniadol y diwygiadau treth a budd-daliadau (yn nhermau arian)



Ffynhonnell: Hood, A. (2015) *Benefit changes and distributional analysis. A presentation for the IFS Post-Budget Briefing Event on 9 July 2015.*

Impact of tax and benefit reforms April 2015 – April 2019 (including universal credit)



Assumes full take-up of means-tested benefits and tax credits.

© Institute for Fiscal Studies

Institute for
Fiscal Studies

Ffynhonnell: Hood, A. (2015) *Benefit changes and distributional analysis*. A presentation for the IFS Post-Budget Briefing Event on 9 July 2015.